

---

## Cod Ymarfer Cyflymder Band Eang

Cynigion i ddiwygio'r Cod Ymarfer Preswyl a Busnes  
Gwirfoddol ar Gyflymder Band Eang

---

# Cynnwys

---

## Adran

1. Trosolwg

3

# 1. Trosolwg

Mae gan Ofcom godau ymarfer gwirfoddol ar gyflymder band eang ar gyfer cwsmeriaid preswyl a busnes, sy'n rhoi'r hawl i gwsmeriaid adael eu contract band eang a gwasanaethau wedi'u bwndelu, heb gosb, os bydd eu cyflymder lawrlwytho yn mynd yn is na'r isafswm cyflymder gwarantedig.

Rydym yn ymgynghori ar ddiweddaru'r codau hyn fel bod yr hawl i adael sy'n berthnasol i fand eang a gwasanaethau eraill wedi'u bwndelu'n cyfateb i Amodau Hawl Cyffredinol diwygiedig Ofcom ('AC diwygiedig') a fydd yn cael eu gweithredu o 17 Mehefin 2022.

## Beth rydym yn ei gynnig

**Diweddaru diffiniad y Cod Preswyl o fwndel.** Rydym yn cynnig diwygio'r diffiniad o fwndel yn y Cod Ymarfer Cyflymder Band Eang Preswyl (y 'Cod Preswyl') fel y bydd hawl y cwsmer i adael yn berthnasol i'w band eang a'i wasanaethau wedi'u bwndelu yn yr un modd ag y bydd eu hawl i adael yn berthnasol i'w contract a'u gwasanaethau wedi'u bwndelu fel y nodir yn yr AC diwygiedig.

**Diweddaru, o fewn y Cod Busnes, y diffiniad o fwndel ar gyfer busnesau bach.** Ar gyfer busnesau bach (y rhai â deg neu lai o unigolion),<sup>1</sup> fel gyda'r Cod Preswyl, rydym yn cynnig diwygio'r diffiniad o fwndel yn y Cod Ymarfer Cyflymder Band Eang Busnes (y 'Cod Busnes'). Bydd hyn yn golygu, i fusnesau bach, y bydd eu hawl i adael yn berthnasol i'w gwasanaethau band eang ac wedi'u bwndelu yn yr un modd ag y bydd eu hawl i ymadael yn berthnasol i'w contract a'u gwasanaethau wedi'u bwndelu fel y nodir yn yr AC diwygiedig.

**Cadw, o fewn y Cod Busnes, y diffiniad presennol o fwndel ar gyfer busnesau mwy.** Ar gyfer busnesau mwy, rydym yn bwriadu cadw diffiniad y Cod Busnes presennol o fwndel er mwyn sicrhau bod y mesurau diogelu presennol yn parhau.

Credwn y bydd y cynigion hyn yn helpu i ddarparu set gyson o reolau rheoleiddio (yn seiliedig ar yr AC diwygiedig) sy'n ymwneud â bwndeli a phwy y maent yn berthnasol iddynt, gan eu gwneud yn haws i gwsmeriaid eu dilyn ac yn symlach i ddarparwyr band eang eu gweithredu. Dylai'r symleiddiad hwn leihau'r tebygolrwydd o gamddealltwriaeth neu gamddechongli os bydd anghydfod yn codi, er budd cwsmeriaid a darparwyr band eang.

## Y camau nesaf

Mae Ofcom yn gwahodd ymatebion i'r ymgynghoriad hwn erbyn 22 Mehefin 2022. Rydym yn bwriadu cyhoeddi datganiad yn nodi ein penderfyniad terfynol ar y diweddariadau i'r Codau, yn hydref 2022-23, ochr yn ochr â'r Codau diwygiedig. Rydym yn cynnig y dylid rhoi newidiadau ar waith o fewn 3 mis i gyhoeddi'r datganiad.

<sup>1</sup> Gweler Atodiad 7 am ddisgrifiad llawnach o'r diffiniad o 'fusnesau bach' fel y defnyddir yn y ddogfen hon